**(HCC 961)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 3 Medi 2020**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Nadine Porter, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Tobias Hill-Summers, Kantar (Eitem 9b)
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)
Keith Smyton, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>I groesawu Keith Smyton, Pennaeth Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru</u>**
**<u>I gael diweddariad am Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru</u>**

Croesawodd y Cadeirydd Keith Smyton a roddodd drosolwg llafar o'r gwaith cyfredol sy'n ymwneud ag Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

Nodwyd bod digwyddiad Blas Ar Gymru, yn dilyn llawer o drafod, wedi cael ei ohirio tan fis Hydref 2020 ac fe'i cynhelid yn y Celtic Manor.

Diolchodd y cadeirydd i Keith Smyton am ei drosolwg llawn gwybodaeth a dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

2. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i drydydd cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

6 Gorffennaf 2020 – Cyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE.

7 Gorffennaf 2020 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

9 Gorffennaf 2020 – Grŵp y Prif Weinidog ar Ymadael â'r UE

10 Gorffennaf 2020 – Grŵp Polisi Masnach Llywodraeth Cymru

20 – 23 Gorffennaf 2020 – Cymerodd y cadeirydd ran mewn nifer o sesiynau rhithiol i'r diwydiant a gynhaliwyd yn ystod wythnos arferol Sioe Frenhinol Cymru.

26 Awst 2020 – Cyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE.

2 Medi 2020 – Cyfarfod Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy – Cafodd unrhyw gynnydd ei ohirio oherwydd y pandemig Covid-19. Byddai hyn yn cael ei adolygu gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a châi'r Bwrdd ei ddiweddaru.

Roedd cyfarfodydd diweddaru rhithiol y Bwrdd / y Weithrediaeth wedi parhau hefyd, yn ogystal â diweddaru mynych dros y ffôn rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

4. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

5. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Gorffennaf 2020 (HCC 953)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Gorffennaf 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

EIDCymru

Byddai'r Prif Weithredwr yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd yn cael ei friffio ar EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd 2020.

7. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Nodwyd bod trafodaethau negodi ynghylch masnach a pherthnasau ôl-Brexit yn parhau rhwng Llywodraeth y DG a'r UE ac nad oedd unrhyw wir gynnydd i'w adrodd hyd yma.

O ran HCC, roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn dal i gymryd rhan mewn cyfarfodydd Llywodraeth Cymru a oedd yn berthynol i Brexit ac roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â defaid a sefyllfaoedd tebygol er mwyn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant cyn ymadael â chytundeb Brexit neu ymadael heb gytundeb.
Roedd y Weithrediaeth yn cysylltu â'r proseswyr ynghylch bod yn barod ar gyfer Brexit ac yn derbyn gwybodaeth er mwyn llunio adroddiad statws a gâi ei ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd trafodaeth a theimlai'r Bwrdd fod marchnadoedd allforio a newidiadau mewn tariffiau yn dal i fod yn fygythiad sylweddol. Nid oedd unrhyw wybodaeth am rwystrau nad ydynt yn dariffau, gan gynnwys costau archwilio ffiniau Er gwaethaf hyn, roedd y fasnach allforio yn gryf o hyd.

Cytunwyd y dylai HCC ddal i gyfathrebu â'r diwydiant ynghylch Brexit.

8. **<u>I gael diweddariad am Oblygiadau Covid-19 o ran y Farchnad Da Byw a'r effaith ar ddarparu Cynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021</u>**

Cytunodd y Bwrdd y bu'r farchnad mewn sefyllfa anghyffredin oddi ar y pandemig Covid-19.

Roedd yn galonogol i'r sector cynradd fod prisiau'r farchnad ar gyfer gwartheg cig a defaid wedi dal yn gryf drwy gydol y cyfnod, gan adlewyrchu galw cryf. O'r herwydd roedd y prisiau'n well na'r cyfartaledd pum-mlynedd ar gyfer y ddwy rywogaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y papur (HCC 943) a gyflwynwyd i'r Bwrdd yng nghyfarfod 2 Gorffennaf 2020 wedi cael ei adolygu gan y Weithrediaeth. Nid oedd y sefyllfa wedi newid ac felly nid oedd angen diwygio'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021 / 2022 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r Weithrediaeth yn cadw llygad ar hyn ac yn adrodd i'r Bwrdd yn ôl yr angen.

Dechreuwyd ar y gwaith o gasglu data i ddeall y tueddiadau o ran cyflenwad a galw sydd wedi arwain at brisiau cyfredol y farchnad. Roedd hyn yn cynnwys dylanwad y farchnad Halal ar y sector cig defaid. Byddai'r Weithrediaeth yn dilyn hyn ac yn rhoi gwybodaeth yn ystod Cynhadledd HCC 2020.

Câi crynodeb / adroddiad gwybodaeth ynghylch sector bwyd Halal y DG ei gynhyrchu ar gyfer AHDB, HCC a QMS a'i osod ar Sharepoint er gwybodaeth i'r Bwrdd.

9. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 954)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am Fap Trywydd Cynaliadwyedd HCC. Roedd gwaith yn mynd rhagddo a chasglwyd llawer iawn o wybodaeth am garbon mewn perthynas â chynhyrchu gwartheg cig a defaid. Roedd y Weithrediaeth ar hyn o bryd yn cwblhau'r drafft ac yn paratoi cynllun cyfathrebu.

Cynigiodd y Swyddog Gweithredol y dylid lansio'r Map Trywydd ar ôl Cynhadledd HCC oherwydd câi fwy o sylw, heb gael ei golli yng nghanol materion eraill. Cytunodd y Bwrdd â hyn.

Cytunwyd y dylid gosod drafft o'r Map Trywydd ar Sharepoint er mwyn i'r Bwrdd allu rhoi adborth i'r Weithrediaeth.

b. <u>I gael cyflwyniad am Dueddiadau Defnyddwyr</u>

Rhoddwyd cyflwyniad am adolygiad a wnaed gan Kantar ar ran HCC ynghylch perfformiad cig oen yn y sector manwerth yn ystod y cyfnod clo.

Câi'r cyflwyniad ei osod ar Sharepoint.

c. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 955)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. <u>Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2020 (HCC 956)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. <u>Diweddariad am ddigwyddiadau (HCC 947)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod ffair fasnach SIAL Paris (18 – 22 Hydref 2020) wedi'i gohirio tan 15 – 19 Hydref 2022.

10. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

***<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>***

a. <u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 10 Mehefin 2020 (HCC 958)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>***

b. <u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Medi 2020</u>

Cafwyd adroddiad llafar am y cyfarfod uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

11. **<u>Papur er gwybodaeth: Lladd Gwartheg yng Nghymru (HCC 960)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y papur wedi cael ei baratoi fel gwybodaeth gefndirol cyn gwneud adolygiad o Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Cafodd yr adolygiad ei ddal yn ôl oherwydd Covid-19, ond byddai'n cael ei ail gomisiynu pan fyddai'n briodol gwneud hynny.

Câi papur gwybodaeth am gapasiti Lladd Defaid yng Nghymru ei baratoi maes o law.

12. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Cadeirydd HCC</u>*

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhoi'r gorau i'w swydd pan fyddai ei dymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Roedd Llywodraeth Cymru yn paratoi i recriwtio ar gyfer Cadeirydd newydd a châi'r swydd ei hysbysebu cyn bo hir.

13. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:</u>**

Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Ddydd Iau 17 Medi 2020 am 10.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020 am 10.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**